



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

10 Medi 2021

9:00 am – 12:00 pm

Dros Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones (yn bresennol tan 11:00 am), Catrin Roberts, Chris Stockport, Cyng. Cheryl Carlisle, Cyng. Christine Jones (yn bresennol tan 10:00 am), Estelle Hitchon, Helen Corcoran, Jenny Williams, John Gallanders, Lucy Reid, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling, Nicola Stubbins, Sam Parry, Sian Tomos (yn bresennol tan 10:50 am), Shan Lloyd Williams (yn bresennol tan 10:30 am)
Ymddiheuriadau:	Barry Argent, Bethan E Jones, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. Llinos Medi Huws, Delyth Lloyd-Williams, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Jo Whitehead, Paul Scott, Steve Gadd, Teresa Owen, Dr Lowri Brown, Roma Hooper
Hefyd yn bresennol:	Michelle Williams, Cyswllt Conwy (ar gyfer eitem 9) Eva Collins, Cyswllt Conwy (ar gyfer eitem 9)

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</u> Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.	
2.	<u>Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (y Bwrdd Gweithlu)</u> Derbyniodd y bwrdd adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd y rhaglen waith ar gyfer y 12 mis diwethaf; roedd uchafbwyntiau'r cynnydd yn erbyn y rhaglen waith yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Penodi Cydlynedd Gyrfa Gofal yn cysylltu ag ymgyrch recriwtio 'Gofalwn'• Hyrwyddo'r sector drwy weithio gyda Gyrfa Cymru, DWP, presenoldeb mewn ffeiriau gyrfaoedd a swyddi rhithiol / cyfarfodydd rhithiol gyda Phrifysgolion / Colegau• Mae darpariaeth SCWDP wedi parhau drwy gydol y pandemig, drwy gyfarfodydd rhithiol h.y. Grŵp Cymwysterau yn darparu Cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru a Fforwm Rheolwyr Cofrestredig.• Ymchwil gan PSL drwy gyllid Cronfa Her Economi Sylfaen (FECF), archwilio ymagwedd rhanbarthol i ategu at gapasiti yn y sector.	

	<p>Roedd y dewisiadau posibl a nodwyd yn cynnwys cydweithredfa ar draws Gogledd Cymru neu Weithrediad sector cyhoeddus, a fyddai'n cynorthwyo gyda heriau presennol y farchnad. Ond credwyd fod hyn yn gam rhy bell ar gyfer partneriaid, gyda phartneriaid yn cadarnhau nad oedd dyhead am y model ar hyn o bryd a bod y gwaith yn cael ei olrhain yn isranbarthol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Memorandwm o Ddealltwriaeth ar draws Awdurdodau Lleol a Phrifysgol Betsi Cadwaladr- Galluogi darparwyr gofal i gael mynediad at staff banc BIPBC i ymdopi â diffyg staff, a lliniaru diffyg staff mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig. • Staff gwaith cymdeithasol plant – materion gyda recriwtio yn gyffredinol – is-grŵp yn archwilio ffyrdd gwahanol o ddenu pobl i wneud gwaith cymdeithasol • Ystyried adolygiadau sylweddol ar ystod o gymwysterau ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol – archwilio llwybrau, cefnogaeth a chyfleoedd datblygu • Darparu cefnogaeth ar gyfer Rheolwyr Cofrestredig, o ganlyniad i'r newidiadau i'r rheoliadau a chofrestru • Sicrhau bod llais pob partner yn cael ei gynnwys yn y drafodaeth, gan sicrhau cydbwysedd i hyrwyddo'r sector • Parhau i ddarparu cefnogaeth drwy effaith y pandemig gyda phwysau nas rhagwelwyd ar y system gyfan • Cynnal cysylltiadau allweddol y gweithlu a datblygu cyflawniadau nodedig o fewn yr holl raglenni trawsnewid <p>Mae'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yn cynnwys gwaith ar Strategaeth y Gweithlu, Memorandwm o Ddealltwriaeth, 'Rhaglen Camu i'r Gwaith' Prifysgol Betsi Cadwaladr a recriwtio a chadw gweithlu gofal cymdeithasol.</p> <p>Mae risgiau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg strategol ar gyfer y rhaglen waith h.y. effaith rheoleiddio'r gweithlu ar recriwtio a chadw; recriwtio a chadw ym maes Gwaith Cymdeithasol Gwasanaethau Plant; cyfleusterau i ddarparwyr gwblhau hyfforddiant ar-lein mewn lleoliad cyfrinachol a chofrestru ar gyfer gweithlu gofal preswyl erbyn Ebrill 2022</p> <p>Holodd JG a oedd dadansoddiad ar gael neu wybodaeth gan Brifysgolion ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol, gan y bu awgrym nad yw 25-30% o Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso'n dechrau gyrfa yn y maes.</p> <p>Nododd JW bod yr holl Awdurdodau Lleol yn cefnogi'r Rhaglen MA a bod myfyrwyr yn cael cynnig swyddi o fewn Awdurdodau Lleol yn gyffredinol, a chytuno i ddarparu diweddariad ar hyn gan Brifysgolion Bangor a Glyndŵr.</p> <p>Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo'r argymhellion isod: Nodi cynnydd gyda'r rhaglen waith gyfredol, nodi'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf a chydabod yr adolygiad arfaethedig o'r strategaeth ynghyd â'r risgiau ychwanegol sydd wedi'u nodi yn awr.</p> <p>Bydd adroddiad y Bwrdd Gweithlu'n cael ei ddsbarthu i aelodau etholedig BPRhGC am eu cytundeb.</p>	<p>JW i ddiweddarau ar ystadegau myfyrwyr gwaith cymdeithasol</p> <p>Dosbarthu adroddiad i dderbyn cydsyniad yr Aelodau Etholedig</p>
--	---	---

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y pwysau mawr a welwyd mewn ysbytai a gofal cartref, heb ddigon o staff yn y system i gefnogi llif cleifion a gofal cartref, gyda darparwyr yn cyflwyno pecynnau gofal yn ôl ac fe nodwyd bod hyn yn bryder a risg enfawr.

Nododd aelodau'r bwrdd bod mwyafrif y drafodaeth gyda darparwyr ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar yr argyfwng difrifol o ran staffio oherwydd bod staff wedi ymlâdd, staff yn gadael i gael cyflogau uwch a llai o bwysau yn y sector lletygarwch a manwerthu, staff hefyd yn symud i'r GIG, sydd â strwythur cyflog ar wahân, ac yn derbyn gwell cyflogau ac amodau a thelerau gwell.

Eglurodd cydweithwyr Trydydd Sector BPRhGC hefyd bod problemau recriwtio o fewn eu sefydliadau gyda swyddi'n cael eu hysbysebu sawl gwaith, ceisiadau gwan, diffyg sgiliau, staff yn gadael i weithio mewn man arall a phawb yn ceisio recriwtio o gyfran fechan o unigolion. Y sector yn methu â chystadlu gyda Graddfa Gyflog y GIG, pensiwn ac amodau a thelerau.

Cytunodd JW i ddarparu tystiolaeth fanwl i'r BPRhGC o'r heriau hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Nododd SLW bod y tair asiantaeth Gofal a Thrwsio sy'n gweithio ar draws Cymru â pherthynas dda gyda'r holl Awdurdodau Lleol a Phrifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â'r gwasanaeth 'Adre o'r Ysbyty', ac yn croesawu trafodaethau i gynorthwyo i leihau'r niferoedd sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn y lle cyntaf, i osgoi bod angen pecynnau gofal cymhleth wrth adael yr ysbyty.

Nododd NS y bu presenoldeb da mewn gweithdy rhwng yr ALI a phartneriaid Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod y pwysau allweddol rhwng Gofal Cartref ac effaith ar sector ehangach iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y gweithdy oedd nodi unrhyw ddatrysiadau ymarferol byrdymor a allai gynorthwyo i fynd i'r afael â rhywfaint o'r pwysau dros y 3-4 mis nesaf.

Nododd NS nad yw rheolwyr yn gallu gweld diwedd i'r sefyllfa ddifrifol sydd ohoni gyda gwasanaethau prin yn ymdopi gyda'r staff sy'n weddill o dan mwy o bwysau. Nodir bod staff yn gadael y system oherwydd gorflinder, nad yw'r staff yn gweld terfyn i'r pwysau sylweddol o weithio gyda Covid, staff yn gwneud dewisiadau bywyd gwahanol a'u denu at swyddi eraill gyda gwell amodau a thelerau.

Nododd NS bod canlyniad y gweithdy wedi darparu cynigion newydd nas ystyriwyd o'r blaen, ac er nad oes datrysiadau cyflym, darparodd y gweithdy syniadau tymor canolig a hirdymor i'w hystyried. Y cam nesaf yw'r Grwp Cydgysylltu Rhanbarthol (RCG) yn trafod y papur canlyniad yn eu cyfarfod nesaf, a chefnogi'r camau priodol. Nododd NS hefyd eu bod yn mynychu cyfarfodydd wythnosol gyda Gweinidog LIC ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod y pwysau gwirioneddol sydd i'w gweld yng Ngogledd Cymru.

Diolchodd NS i bawb a fu'n bresennol ac sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth. Bydd nodiadau'r gweithdy yn cael eu rhannu gyda'r BPRhGC.

SLW/ ME /
NS i drafod
ymhellach

Dosbarthu
nodiadau'r
gweithdy-
RW

	<p>Nododd TGAC bryderon dwys ac effaith ar unigolion sydd angen gofal ac unigolion yn aros i adael yr ysbyty gydag effaith ganlyniadol ar lif cleifion allan ac i mewn i'r ysbyty gan gael effaith sylweddol ar argaeledd ambiwlans yn y gymuned.</p> <p>Ychwanegodd NS bod y negeseuon gwael yn y wasg yn ddiweddar ynglŷn â'r pwysau yn y system yn hynod amhriodol. Mae'r holl bartneriaid yn gwneud mwy na'r disgwyl, ac yn gwneud eu gorau i gefnogi unigolion, gyda chynlluniau brys wedi'u defnyddio a dim tebygolrwydd o ddatrysiadau cyflym yn fyr dymor.</p> <p>Bydd angen tynnu sylw at y deialog o ran byw'n ddiogel gyda Covid, yn fyrdymor a'r tymor canolig a pha elfen o gyfaddawdu fydd ei angen gan lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gymuned. Mae'r tirlun wedi newid o ganlyniad i'r cynllun brechu, ond nid mewn modd sy'n tynnu pwysau Covid o'r system.</p> <p>I gloi'r drafodaeth, nododd yr aelodau bod y sector, yn gyfangwbl, angen buddsoddiad sylweddol i ddod â strwythur cyflog yn uwch i fod yn gynnog cystadleuol sy'n cefnogi'r busnesau gofal yn y farchnad.</p> <p>Cydnabyddodd cadeirydd BPRhGC yr holl bartneriaid sydd wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn yn ystod y pandemig.</p>	
<p>3.</p>	<p><u>Cefnogaeth ar gyfer Cartrefi Gofal – Chris Stockport</u> Derbyniodd y bwrdd adroddiad ar gefnogaeth barhaus ar y cyd a roddwyd i gartrefi gofal ar draws Gogledd Cymru yn ystod pandemig Covid-19.</p> <p>Nododd CS sut mae'r rhanbarth wedi elwa o'r berthynas waith agosach; gan leihau dyblygu o fewn cartrefi gofal, gweithio'n dda ar draws gofal cymdeithasol, gyda thimau iechyd amgylcheddol, TTP, a chefnogi cartrefi gofal pan fydd achosion.</p> <p>Darparwyd cefnogaeth gan Brifysgol Betsi Cadwaladr drwy sefydlu cell cartref gofal. Mae'r grŵp yn parhau i fod yn grŵp cyswllt llawn gwybodaeth.</p> <p>Cadarnhaodd JW bod y gefnogaeth ar gyfer cartrefi gofal yn ystod y pandemig wedi dod â'r holl bartneriaid yn agosach at ei gilydd. Ond, nododd ambell fwch o ran mynediad at niysys yn y sector gofal, a manylion rhaglen brechlyn atgyfnerthu ar gyfer Covid.</p> <p>Nododd CS bod manylion terfynol rhaglen frechu atgyfnerthol Covid yn parhau i gael eu cadarnhau, gan aros am gymeradwyaeth rhaglen brechlyn atgyfnerthu JCVI a thystiolaeth i gefnogi h.y. byw gyda Covid – yn fyr dymor ac yn y tymor canolig, manylion ar y cylch imiwnedd ac effeithiau Covid.</p> <p>Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar negeseua, gydag ymwrthedd ychwanegol i negeseuon eildro TGAC yn cael llai o effaith, gyda nifer o alwadau aciwtedd isel amhriodol yn cael eu cyfeirio drwy TGAC.</p> <p>Mae Gofal Sylfaenol yn dychwelyd i ystafelloedd aros gyda chapasiti llawn yn hytrach nag ymgynghoriad rhithiol hefyd yn anodd ei reoli.</p>	

	<p>Mae'r sefyllfa bresennol yn hynod anodd ac angen cefnogaeth gan yr holl bartneriaid.</p> <p>Cytunodd BPRhGC i gymeradwyo'r argymhellion isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydnabod yr ymagwedd partneriaeth ar y cyd sy'n gadarn ac yn cefnogi ein Cartrefi Gofal yn ystod y pandemig; • Cydnabod, gan fod cyfraddau heintio covid-19 wedi cynyddu, y dylid ailsefydlu trefniadau dwysau. • Cydnabod y cynnydd a wnaed ar ddatblygiad Fframwaith Sicrwydd Ansawdd. • Bydd hyn yn darparu fframwaith cadarn sy'n cynnwys y safonau ansawdd sydd i'w disgwyl gan ein darparwyr cartrefi gofal, yn amlinellu rhaglenni o gefnogaeth wedi'i dargedu, ynghyd ag addysg a hyfforddiant a fydd yn arwain darparwyr i sicrhau gofal o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth. <p>Mae ffrydiau gwaith amlasiantaeth wedi'u sefydlu a gofynnwyd am gynrychiolaeth gan ddarparwyr;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn cymeradwyo ail-ganolbwyntio'r bartneriaeth ar weithrediad camau allweddol o fewn cynllun gweithredu Cartref Gofal Sengl Llywodraeth Cymru. <p>Bydd adroddiad Cefnogaeth ar gyfer Cartrefi Gofal yn cael ei ddisbarthu i'r aelodau etholedig i dderbyn eu cytundeb.</p>	<p>Dosbarthu adroddiad i dderbyn cytundeb yr Aelodau Etholedig</p>
<p>4.</p>	<p><u>Adroddiad ICF Chwarter 1 2021-22 - Neil Ayling</u></p> <p>Derbyniodd y bwrdd ddiweddiariad ar Adroddiad Chwarter 1 Cronfa Gofal Integredig 2021-22. Y prif bwyntiau:</p> <p><u>Refeniw</u> – gwariant hyd yma o 15% o'r dyraniad, efallai bod hyn yn isel ond mae hyn yn arferol ar gyfer chwarter 1 gan nad yw rhai o'r prosiectau yn gwbl weithredol eto. O'r 125 prosiect refeniw – mae 99 yn dangos statws COG gwyrdd ac yn mynd rhagddynt fel a gynlluniwyd. 1 yn dangos statws COG coch a 15 statws COG oren, oherwydd heriau recriwtio a staffio, heriau cadw pellter cymdeithasol a chapasiti sefydliadau trydydd sector. Mae 10 prosiect yn aros i gael eu diweddarau.</p> <p><u>Cyfalaf</u> – 18 Prif Gynllun Cyfalaf a 18 Cynllun Cyfalaf Dewisol ar y gweill. Mae'r gwariant hyd yma yn isel iawn yn 0.1%. Gofynnwyd bod hawliadau prydlon yn cael eu hanfon ymlaen ac y bydd Chwarter 2 yn dangos sefyllfa sy'n fwy realistig. Gofynnir i aelodau NWRPB nodi bod LIC wedi cytuno ar gyfer 12 mis ychwanegol i gyllid 21/22 Meadow Lodge gan fod y contractwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwr.</p> <p><u>Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS)</u> – mae'r gwariant hyd yma yn £450mil o'r £652mil ac yn cynnwys yr holl gostau staffio. Mae gwaith i ddatblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer y Cod Ymarfer yn symud ymlaen gyda £4mil o gyllid wedi'i ddarparu gan LIC.</p> <p>Peilot Ymyrraeth Therapiwtig (TIP) – gwariant hyd yma yn 25%, £50mil gyda rhywfaint o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu darn o waith ar egwyddorion cyflwyno modd gwasanaeth newydd ar draws Gogledd Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc nad ydynt yn diwallu'r trothwyon ar gyfer cefnogaeth arbenigol neu'n camu i lawr o gefnogaeth lefel uchel.</p> <p>Llety diogel ar gyfer plant gydag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, lefel uchel (SACCN) - £435mil wedi'i gadarnhau gan LIC ddiwedd Mai 2021. Mae cynllun wedi'i ddatblygu i gynyddu cynigion is-</p>	

	<p>ranbarthol ac mae strwythur ymarfer yn cael ei sefydlu i alluogi rhanbarthau i ddysgu gan ei gilydd.</p> <p>Cytunodd yr NWRPB i nodi a chytuno sefyllfa Ch1 2021-22 o ffrydiau cyllid ICF. Bydd adroddiad Ch1 CGI yn cael ei ddsbarthu i aelodau etholedig i gael eu cytundeb.</p>	<p>Dosbarthu adroddiad i dderbyn cytundeb yr Aelodau Etholedig</p>
<p>5.</p>	<p><u>Cymru Iachach</u> Hawliadau Chwarter 1 Rhaglen Drawsnewid LIC :</p> <p><u>Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol – Chris Stockport</u> Adroddodd CS ar adroddiad CST cytbwys yn canolbwyntio ar y meysydd gwerth uchel sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Gwelwyd cynnydd cadarnhaol gyda nifer o ffrydiau gwaith allweddol yn dod i ben / symud ymlaen i'r cam nesaf eu gweithrediad yn dilyn gwerthusiad ac adolygiad. Gwnaed cysylltiadau pwysig gyda gwaith y grŵp gofal sylfaenol cenedlaethol a'r gwaith datblygu clwstwr carlam. Mae cynllun cyflawni rhaglen yn cael ei ddatblygu, yn unol â gofynion LIC ac yn nodi'r ymagwedd a gymerir drwy'r flwyddyn arian pontio.</p> <p><u>Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc - Nicola Stubbins</u> Nododd NS y cynnydd sylweddol a wnaed ar y rhaglen gyda chanlyniadau sylweddol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd wedi elwa o'r rhaglen hyd yma.</p> <p><u>T4MH – Teresa Owen / Amanda Lonsdale</u> Nododd AL bod rhaglen T4MH ar y trywydd cywir gyda chynlluniau gadael yn eu lle i barhau â'r rhaglen o waith. Rheolaeth o wasanaeth ffôn ICAN Covid-19 wedi'i sefydlu mewn ymateb i Covid yn trosglwyddo'n llawn i'w ddarparu gan Ganolfannau Cymunedol ICAN.</p> <p>Mae Straeon Cleifion wedi'u nodi gan ddefnyddio'r Fethodoleg Newid Mwyaf Sylweddol, a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe. Mae 6 stori wedi'u dewis i'w trafod yng Ngham 2 proses MSC. Bydd aelodau Is-grŵp Gwerthuso Grŵp Llywio ICAN yn derbyn gwahoddiad i fynychu trafodaeth ym mis Awst 21 i ddod â'r broses i ben.</p> <p>Peilot Gofal Sylfaenol ICAN yn y Gorllewin sy'n cyflwyno Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio mewn Meddygfeydd ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Canolfan ICAN – yn darparu'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth iechyd meddwl lefel isel.</p> <p><u>Anabledd Dysgu – Neil Ayling</u> Nododd NA bod darlun cadarnhaol o fewn Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu o ran cyflawni cynlluniau. Mae gweithdy budd-ddeiliaid wedi'i drefnu ar gyfer 17.9.21 i drafod camau nesaf y rhaglen ar ôl Mawrth 2022.</p> <p>Holodd MW-J a yw'r gofyniad dilysu a'r allbynnau mesuradwy o Raglenni Trawsnewid wedi bod yn ddigon manwl o'r cychwyn cyntaf.</p> <p>Cadarnhaodd CR bod arweinwyr trawsnewid a phennaeth cydweithio rhanbarthol yn gweithio'n agos gydag IPC ar fframwaith werthuso. Mae canllawiau pellach wedi'u derbyn gan LIC ynglŷn â meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt a fydd yn sicrhau bod y gwerthusiad yn drylwyr, ac</p>	

	<p>yn rhoi cyfle teg i adlewyrchu ar y gwaith da a gwblhawyd ar yr holl raglenni.</p> <p><u>Canolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella (RIIC) - Morwena Edwards</u> Nododd ME yr adroddiad cryno a chynhwysfawr, a diolch i'r tîm ymchwil, sy'n cefnogi'r holl ffrydiau gwaith ar draws y tîm cydweithredol h.y. PNA a MSR, a'r holl Raglenni Trawsnewid, yn allweddol i'r gwaith sy'n cael ei gwblhau fel rhanbarth. Bydd y Tîm CYAG yn allweddol i gynorthwyo gyda gwaith arloesol llunio a byw gyda Covid.</p> <p>Roedd y bwrdd yn cytuno i gefnogi y 5 adroddiad Rhaglen Drawsnewid Chwarter 2021-2022, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i aelodau etholedig i gael eu cytundeb.</p>	<p>Dosbarthu adroddiad i dderbyn cytundeb yr Aelodau Etholedig</p>
<p>6.</p>	<p><u>Cyllid Refeniw yn y Dyfodol (diweddariad ar lafar) – Catrin Roberts</u> Cadarnhaodd CR bod LIC wedi cymeradwyo cronfa fuddsoddi refeniw 5 mlynedd (Ebrill 22-Mawrth 2027) i ategu at waith y CGI ar Rhaglenni Trawsnewid hyd yma, yn canolbwyntio ar integreiddio darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru.</p> <p>Mae LIC wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr BPRh a budd-ddeiliaid allweddol eraill i gyd-gynhyrchu manylion y rhaglen, gan gynnwys trefniadau llywodraethu a darparu. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau gyda gweithdai yn cael eu cynnal ym mis Awst a Medi gyda'r nod o gyflwyno'r canllawiau cychwynnol i ymgynghoriad yn yr hydref. Nid oes ffigwr cyllid wedi'i nodi, ac fe gredir y bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.</p> <p>Mae cyllid cyfalaf a chyllid CYAG yn destun trafodaethau ar wahân a byddant yn cael eu hystyried yn ddiweddarach.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>Diweddariad is-grŵp plant BPRhGC (diweddariad ar lafar) – Catrin Roberts</u> Hysbysodd CR ynglŷn â thrafodaeth ddiweddar ar ddatblygiadau'r Is-grŵp Plant. Bydd rhag-gyfarfodydd yr hydref yn cael eu trefnu gydag aelodau penodol ym mis Medi, Hydref a Thachwedd, ac yn canolbwyntio ar gadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylch Gorchwyl ac enwi'r is-grŵp. • Trafod mapio drafft yr holl gyfarfodydd Plant • Cynllun gwaith / blaenoriaethau • Paratoi ar gyfer lansio a dechrau cyfarfodydd is-grŵp ffurfiol o fis Ionawr 2022 ymlaen <p>Mae CR wedi trefnu mynychu cyfarfod Penaethiaid Addysg Gogledd Cymru yn y dyfodol agos i rannu diben ac i dderbyn cefnogaeth ar gyfer y grŵp newydd.</p> <p>Bydd diweddariadau'n cael eu darparu i'r BPRhGC wrth i'r gwaith fynd rhagddo yn ystod yr hydref.</p>	
<p>8.</p>	<p><u>Diweddariad adfer (diweddariad ar lafar) – Nicola Stubbins</u> Eglurodd NS o ganlyniad i'r pwysau cynyddol o fewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae Grŵp Arian wedi'i sefydlu. Mae gofyniad o hyd ar elfennau adfer gyda diweddariadau yn cael eu darparu i'r RCG. Mae'r</p>	

	<p>holl feysydd blaenoriaeth wedi derbyn gwybodaeth ar derfynau amser adroddiadau a dyddiadau cyfarfod Grwp Cydgysylltu Rhanbarthol yn y dyfodol, ynghyd â thempled adroddiadau. Bydd y tîm rhanbarthol yn casglu adroddiadau ar gyfer y Grwp Cydgysylltu Rhanbarthol.</p>	
<p>9.</p>	<p><u>Swyddog Eiriolaeth Rhanbarthol Cyntaf Gogledd Cymru – Neil Ayling / Michelle Williams</u> Derbyniodd y bwrdd gyflwyniad gan Michelle Williams, ar ei rôl fel Swyddog Eiriolaeth Rhanbarthol cyntaf Gogledd Cymru.</p> <p>Eglurodd MW ei bod wedi ymwneud â Chyswllt Conwy am 18 o flynyddoedd, ac yn dilyn gwaith gwirfoddoli a phresenoldeb mewn sawl cyfarfod, gan dderbyn rôl gyda chyflogaeth.</p> <p>Mae MW o'r farn bod hyrwyddo hunan-eiriolaeth ar draws Gogledd Cymru, ac annog aelodau newydd gydag anabledau dysgu i fod yn rhan o grwpiau lleol ac ymgysylltu yn rhannau pwysicaf ei gwaith.</p> <p>Nododd MW hefyd ei bod yn mynychu grwpiau eiriolaeth i'w diweddarau ar y rôl, ac mae wedi cyflwyno mewn digwyddiadau a chyfarfodydd proffesiynol.</p> <p>Diolchodd BPRhGC i Michelle am fynychu a'r cyflwyniad llawn gwybodaeth sy'n dystiolaeth bod Michelle yn mwynhau ei rôl sy'n cael effaith enfawr ar eiriolaeth ar draws Gogledd Cymru.</p>	
<p>10.</p>	<p><u>MAS a Chefnogaeth Ddiagnostig (Llwybr Asesu Cof) – Amanda Lonsdale</u> Hysbysodd AL am gais MAS ar gyfer £678,000, cyllid ailadroddol, sydd wedi'i gyflwyno i LIC, ac fe gymeradwywyd y cais gan LIC ar 16.8.2021. Mae'r prosiect yn ceisio gwella llwybr MAS, i ddarparu asesiadau amserol a diagnosis i atgyfeiriadau newydd o fewn 12 wythnos o'r atgyfeiriad i'r diagnosis ar gyfer 90% o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, gan ddarparu cefnogaeth cyn ac ar ôl diagnosis ar gyfer pobl gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr.</p> <p>Mae dau brif fater wedi'i nodi gan y rhai sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Asesu Cof a chydweithwyr partner yng Ngogledd Cymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Diffyg capasiti i ddiwallu'r galw, gyda 389 o bobl yn aros am asesiad cychwynnol a'r amser rhwng yr atgyfeiriad a'r diagnosis dros 12 wythnos. 2. Cefnogaeth cyn asesiad ac ar ôl diagnosis yn anghyflawn, anghyson ac annigonol. <p>Mae'r gweithgareddau ar gyfer newid yn rhan o 3 edefyn eang sy'n rhan o adfer ar ôl Covid ac yn cefnogi symud yn ôl i'r normal newydd:</p> <p>Edefyn 1 – Penodi Rheolwr Llwybr Asesu Cof Rhanbarthol dynodedig i arwain a chydlynu'r gwaith a gefnogir gan dracwyr llwybr gweinyddol.</p> <p>Edefyn 2 – Penodi clinigwyr ychwanegol i gynyddu capasiti asesu a diagnosis</p> <p>Edefyn 3 – Datblygu a gweithredu gwasanaethau addysg a chefnogi cyn asesu ar ddechrau'r llwybr asesu cof a gwella gwasanaethau cefnogi ar ôl derbyn diagnosis ar ddiwedd y llwybr, drwy wasanaeth llwybr trydydd sector rhanbarthol wedi'i gomisiynu.</p>	

	<p>Gwerthfawrogi'r mawredd y dasg, a bydd y darn sylweddol o waith yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.</p> <p>Cadarnhaodd AL fod yr uchelgais yn cynnwys gweithio gyda gofal sylfaenol, dod i adnabod eu safbwynt o'r atgyfeiriad cyntaf a gweithio gyda Chlystyrau Gogledd Cymru i gyd.</p> <p>Diolchodd y cadeirydd i AL am ddiweddariad llawn gwybodaeth ar waith MAS.</p>	
<p>11.</p>	<p><u>Diweddariad ar Gynllun y Gaeaf (ar lafar) - Catrin Roberts</u> Nododd CR na dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r arddull neu'r gofynion ar gyfer cynllun y gaeaf eleni. Yn y cyfamser, mae'r rhanbarth wedi cytuno i symud ymlaen ar sail y gofynion blaenorol, a choladu un Cynllun y Gaeaf gan Brifysgol Betsi Cadwaladr a'r Awdurdodau Lleol, er mwyn cael drafft yn ei le cyn pwysau'r gaeaf.</p> <p>Mae Prifysgol Betsi Cadwaladr yn llunio eu cynllun gweithredu ac mae'r Awdurdodau Lleol yn diweddarau eu cynlluniau gweithredu sy'n cael eu cyflwyno i'r tîm rhanbarthol erbyn 13.9.2021. Bydd yr holl gynlluniau, ar ôl eu derbyn, yn cael eu cyfuno i un Cynllun rhanbarthol y Gaeaf ar gyfer LIC.</p> <p>Cytunwyd bod angen i'r cynllun adlewyrchu'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfarfod ar y pwysau presennol h.y. y gweithlu - recriwtio a chadw staff</p> <p>Bydd Cynllun drafft y Gaeaf yn cael ei gyflwyno i NWRPB yr Hydref i'w gymeradwyo.</p>	<p>Adroddiad Cynllun y Gaeaf - Rhaglen Hydref NWRPB - RW</p>
<p>12.</p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am waith adfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Chris Stockport</u> <u>Y wybodaeth ddiweddaraf am y brechlyn</u> Nododd CS bod cynnydd rhagorol yn parhau o ran niferoedd sydd wedi'u brechu yng Ngogledd Cymru. Bydd brechlyn atgyfnerthu Covid a brechlyn y fflw yn cael eu cynnig fel brechlyn ar wahân, ac yn cael eu cyflwyno yn debyg i frechlynnau eraill yn ystod pandemig Covid. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd y bydd y straen fflw yn wahanol i'r blynyddoedd arferol.</p> <p><u>Diweddariad adfer cyffredinol</u> Mae amgylchedd heriol sylweddol ar hyn o bryd, y tu hwnt i unrhyw bwynt arall yn y pandemig: staff yn gorflino, unigolion yn gwneud penderfyniadau sy'n newid bywyd a gadael y sector iechyd.</p> <p>Mae'r rhaglen frechu wedi lleihau difrifoldeb salwch yr unigolion sydd â Covid. Mae cyfran sylweddol o unigolion yn yr ysbyty yn rai sydd heb dderbyn brechlyn, gyda chynnydd yn nifer y bobl iau.</p> <p>Pwysau sylweddol ar adael yr ysbyty, cleifion sy'n feddygol ffit ar draws Gogledd Cymru yn methu â gadael yr ysbyty oherwydd capasiti cartref gofal / gofal cartref.</p> <p>Bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n dod i'r Adran Frys a gofal sylfaenol dros fisoedd yr haf oherwydd niferoedd ar wyliau gartref yng Ngogledd Cymru.</p>	

	<p>Mae cynnydd sylweddol o ran oedi o drosglwyddo o ofal TGAC i'r Adran Frys i lefel nas rhagwelwyd o'r blaen ar draws Cymru.</p> <p>Mae symud ymlaen â'r ffrwd waith adfer a delio â'r ôl-groniad wedi bod yn anodd oherwydd y pwysau o ddydd i ddydd; cyfyngiadau oherwydd cadw pellter cymdeithasol, pwysau o fewn safleoedd ysbytai a mwy o bwysau o ran heriau staff a nifer sylweddol o swyddi gwag. Mae hyn wedi effeithio ar nifer uchel o lwybrau nad ydynt yn gancr, rhestrau aros orthopedig, cataract, CAMHS a datblygiad niwrolegol. Ond, gwneir pob ymdrech i ddatblygu adferiad gydag ystod o ymagweddau gwahanol.</p> <p>Nododd Aelodau BPRhGC bryder o ran y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd TGAC bod cynnydd enfawr yn y galwadau 111, sy'n peri pryder gan nad yw lechyd Cyhoeddus Cymru yn credu bydd y don bresennol yn cyrraedd uchafbwynt tan ddiwedd Hydref. • Oedi o ran TGAC yn mynychu cwmpïadau mewn cartrefi gofal • Unigolion yn cysylltu â'r gwasanaeth anghywir ar yr adeg anghywir <p>Cytunodd aelodau BPRhGC bod angen ymgyrch gadarn yn y cyfryngau; negeseuon Dewis Doeth a Help Us to Help You – negeseuon i'w hailadrodd nes bo'r boblogaeth yn gyfarwydd â'r newidiadau yng ngwasanaeth iechyd Gogledd Cymru.</p>	
13.	<p><u>Nodiadau a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – Gorffennaf 2021</u> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9.7.2021 yn gywir. Nid oedd unrhyw gamau pellach i'w cwblhau.</p>	
14.	<p>Unrhyw Fater Arall – dim byd i'w adrodd</p>	
15.	<p>Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gohebiaeth ynglŷn â chyllid yn y dyfodol • Arolwg - Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru • Dogfen Adolygu Parodrwydd NEST 	
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 8 Hydref 2021 o 9:00 – 12:00</p>	